theatr na nÓg

**yn cyflwyno…**




## Stori weledol a chanllaw i'r perfformiad

Mae llawer o wybodaeth a lluniau am y ddrama yn ein stori gweledol i'ch arwain drwy'r sioe a'ch ymweliad â'r theatr!

Os ydych am fanylion pellach am y perfformiad ffoniwch neu e-bostiwch ni:

**E:** drama@theatr-nanog.co.uk **Ff:** 01639 641771

# Croeso i'r theatr!

Croeso oddi wrth Theatr na nÓg i Theatr Dylan Thomas i fwynhau ein perfformiad o'r Heliwr Pili Pala.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys.....


TUDALEN GYNNWYS

CANLLAW I… CYNTEDD Y THEATR

CANLLAW I… EISTEDD YN Y THEATR

CANLLAW I… HYD Y PERFFORMIAD

YMLAEN Â'R SIOE

Y STORI
Disgrifiad o bob golygfa gyda lluniau

MANYLION ADBORTH

## Cyntedd y Theatr

Croeso i'r theatr! Bydd eich stop cyntaf yn y theatr yng nghyntedd y theatr. Dyma ble mae pob aelod o'r gynulleidfa'n dod i mewn i'r theatr er mwyn gweld y sioe. Am fod gymaint o bobl eisiau dod i weld y sioe, yn aml gall cyntedd theatrau fod yn brysur iawn ac yn eithaf swnllyd.

Mae'n bosibl y byddwch yn cwrdd â'r tywyswyr yn y cyntedd. Mae ein tywyswyr yn bobl gymwynasgar a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich trip i'r theatr a'ch cyfeirio chi at holl gyfleusterau'r theatr gan gynnwys toiledau, caffis a ble i fynd i eistedd ar gyfer y sioe.

## Eistedd yn y theatr

Ar ôl i'r tywysydd eich tywys i'r awditoriwm, fe sylwch fod yna lawer o gadeiriau mewn rhesi yn wynebu'r llwyfan. Bydd tywyswyr y theatr a'ch athrawon yn eich helpu i ddod o hyd i sedd i chi eistedd arni.

Cyn bod y sioe'n dechrau, gall yr awditoriwm fynd yn brysur iawn ac yn eithaf swnllyd wrth i bobl deimlo'n gyffrous gyda'r sioe ar fin dechrau.

## Hyd y perfformiad

Hyd yr Heliwr Pili Pala yw tua:

1 Awr.

Ni fydd egwyl.

Ar ôl y perfformiad, bydd sesiwn holi ac ateb gyda'r actorion a fydd yn para tua:

15 munud.

Ar ôl y sesiwn holi ac ateb, bydd alldaith natur gyda'r actorion a fydd yn para tua:

15 munud.

## Ymlaen â'r sioe…

Pan fydd y sioe ar fin dechrau, efallai gwelwch chi'r tywysydd yn gofyn yn gwrtais i bawb i ddiffodd eu ffonau symudol. Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn diffodd pob ffôn a thabled, neu eu gosod i fod yn dawel cyn bod y sioe yn dechrau.

Pan fydd pawb yn barod y tu ôl i'r llwyfan, bydd golau'r awditoriwm yn gostwng, sy'n golygu bydd y theatr yn mynd yn dywyll iawn!
Efallai bydd hyn yn codi bach o ofn arnoch chi, ond peidiwch â phoeni – os fyddwch am adael y theatr ar unrhyw adeg, bydd yna ddigon o olau i chi weld ble rydych chi'n mynd. Bydd tywysydd o gwmpas drwy'r adeg i'ch helpu chi ffeindio'ch ffordd.

Pan fydd y sioe yn dechrau, **eisteddwch yn daclus ac yn dawel** yn eich sedd.

Mae'n bwysig i chi wneud hyn gan fydd yn helpu pawb arall yn y theatr i fwynhau'r sioe hefyd!

Bydd llawer o ganeuon gwahanol drwy gydol y sioe.

Os yw'r gerddoriaeth neu'r effeithiau sain yn rhy uchel i chi, mae'n iawn gorchuddio'ch clustiau neu wisgo offer clustiau os oes rhai gyda chi.



Ar adegau, gall pobl eraill yn y gynulleidfa ddangos i'r actorion eu bod yn mwynhau'r sioe wrth glapio dwylo.

Gall hyn ddigwydd yn sydyn a bod yn eithaf swnllyd.

Os wnaethoch chi fwynhau rhywbeth yn y sioe, gallwch chi glapio hefyd, os hoffech chi!

Os ydych am adael yr awditoriwm ar unrhyw bwynt, mae yna lefydd tawel penodol i chi fynd i eistedd. Gofynnwch i'r tywysydd am fanylion a chyfarwyddiadau am ble i fynd.

## Y Stori

(Rhybudd - Sboiler!)

Mae seiniau'r fforest law o'n cwmpas ym mhob man ac mae Alfred Russel Wallace yn ysgrifennu yn ei lyfr nodiadau y tu fewn i'w babell. Dim ond ei silwét (ei gysgod) allwn ni weld.

Yna daw tad Alfred, Thomas Wallace, i'r llwyfan, ac mae'n dechrau adrodd y stori. Esbonia sut oedd Alfred bob amser wedi breuddwydio am deithio i wledydd pell y byd.



Yn sydyn, dydyn ni ddim yn y jyngl rhagor, ond yn hytrach fe welwn Alfred a'i frawd John fel plant yng Nghymru. Maen nhw'n chwarae yn yr afon yn dal pysgod. Wrth iddyn nhw sgwrsio mae Alfred yn dysgu, gan ei frawd hŷn John, eu bod nhw'n deulu tlawd.

Ar ôl iddyn nhw gyrraedd adref mae eu mam wedi synnu gyda'r holl fwd sydd drostynt! Mae tad Alfred yn cyrraedd gan ddweud wrth y teulu eu bod am fod yn gyfoethog oherwydd ei fusnes papur newydd.



Mae amser yn mynd heibio ac fe ddown i wybod fod y busnes papur newydd yn methu, ac mae'r teulu'n gadael eu cartref yng Nghymru ac yn symud i Loegr. Maen nhw'n gadael ar gwch, ac fe welwn y teulu fel pypedau cysgod, yn croesi'r dŵr. Mae'r fordaith yn stormus, felly ceir sŵn taranau swnllyd. Mae'n frawychus braidd.



Rydyn ni'n gweld Alfred yn yr ysgol yn Lloegr gyda'i athro. Nid yw'r athro'n hapus iawn nac yn cymeradwyo'r holl anturiaethau gafodd yn ystod ei blentyndod yng Nghymru.



Yn ôl adref, mae Alfred yn mynd i mewn i lyfrgell ei dad ble maen nhw'n siarad am lyfr anturiaethau gan y fforiwr enwog Alexander Von Humboldt. Byddai Alfred wrth ei fodd i gael mynd ar ei antur ei hun i'r Amazon, sef afon hiraf y byd.



Mae Alfred yn cwrdd â bachgen ifanc, Henry Walter Bates. Mae Henry yr un mor gyffrous am anturiaethau ag yw e! Mae Henry'n dangos ei gasgliad o drychfilod a phili palod i Alfred ac mae'r ddau'n dechrau tybio pam fod yna gymaint o wahanol fathau.

Yn fuan ar ôl siarad â Henry, mae Alfred yn clywed fod ei dad wedi marw a bod rhaid iddo ddychwelyd i Gymru i helpu ei frawd yn ei swydd fel syrfëwr tir i'r rheilffyrdd newydd.



Ar ôl siarad â'r Fferïwr, mae Alfred yn penderfynu y byddai'n well ganddo deithio adref ar goets yn hytrach na chwch (mae e'n casáu cychod ar ôl ei drip cyntaf i Loegr!)

Mae e'n dal y goets i Gastell-nedd ac mae menyw a'i 3 mab yn ymuno ag e.
Mae'r fenyw'n siaradus iawn!



Rydyn ni'n gweld Alfred yng Nghastell-nedd, yn darllen llythyr i'w fam. Yna rydyn yn ei weld yn gweithio gyda'i frawd sy'n syrfëio cefn gwlad. Mae Alfred yn poeni bydd y rheilffordd yn golygu bydd bywyd gwyllt yn colli cartref.

Mae ei frawd William yn esbonio wrtho mai rhan o'i swydd yw casglu rhent oddi wrth y bobl sy'n byw ar y tir y bydd y rheilffordd yn rhedeg drwyddo.




Wrth i Alfred gerdded drwy'r dyffryn i ddod o hyd i'r bobl sy'n byw yno a chasglu rhent, mae'n cwrdd â merch ifanc. Mae'r ferch yn siarad yn Gymraeg. Mae hi'n esbonio mai Grug yw ei henw a bod ei mam wedi marw, yn union fel tad Alfred.



Mae Alfred yn mynd i gwrdd â'i fos, sydd eisiau'r rhent mae e wedi ei gasglu. Dyw'r bos ddim yn dangos llawer o gydymdeimlad wrth y bobl leol. Mae ei fos yn hoffi canu'r feiolin. Mae'n dechrau canu'r offeryn i Alfred ond mae'n ofnadwy! Mae Alfred yn esgus ei fod yn dda fel nad yw'n digalonni!



Mae Alfred yn dychwelyd i'r cwm lle wnaeth e gwrdd â Grug. Mae'n gweld pili palod ac yn eu dal mewn rhwyd. Mae Grug yn ei holi llawer am y pili palod, mae hi'n meddwl eu bod yn hardd.



Nôl adref, mae Alfred yn dweud wrth ei frawd ei fod eisiau mynd am antur, i gasglu llawer o rywogaethau newydd. Mae angen arian ar gyfer y trip arno, felly mae'n ymweld â'r Gymdeithas Athronyddol i weld a wnawn nhw adael iddo fenthyg arian er mwyn mynd. Mae Mr Dilwyn, sy'n rhedeg y gymdeithas, yn dweud na.



Yn nes ymlaen, mae Alfred yn darganfod trwy ei ffrind Henry Walter Bates fod yr Amgueddfa Brydeinig wedi cytuno i fenthyg yr arian iddynt ar gyfer y trip. Maen nhw wrth eu boddau! Maen nhw'n mynd am antur o'r diwedd. Maen nhw'n dechrau pacio eu bagiau a siarad am eu cynlluniau o hwylio draw i'r Amazon.



Mae Henry ac Alfred yn cychwyn am yr Amazon mewn llong fawr, ac yn cyrraedd y fforest law o'r diwedd. Mae yna lawer o synau uchel fforest law a dail ym mhobman.




Maen nhw'n codi gwersyll ac yn rhyfeddu at harddwch popeth o'u cwmpas. Mae llawer o anifeiliaid yno, ac maen nhw hyd yn oed yn gweld jagiwar! Mae'n eithaf dychrynllyd ond yn hardd iawn. Yn y pendraw, mae Henry ac Alfred yn penderfynu mynd ar wahân, ac archwilio llefydd gwahanol.



Mae Alfred yn paratoi i fynd adref. Mae ganddo gist fawr yn llawn o'r chwilod a'r pili palod a gasglodd ac mae'n mynd â'r gist ar y llong.



Maent ymhell yng nghanol y môr ac mae rhywbeth ofnadwy'n digwydd. Mae'r llong yn mynd ar dân, ac mae pawb yn gorfod dianc mewn cychod achub. Mae trysorau gwerthfawr Alfred yn llosgi yn y tân ac ar ôl treulio 10 diwrnod yn arnofio ar wyneb y môr mewn cwch bychan mae'n cyrraedd diogelwch.



Mae Alfred yn penderfynu parhau â'i anturiaethau ac yn mynd i Falaysia nesaf. Mae'n mabwysiadu babi orangwtan ac yn gwneud ffrindiau gyda dyn o'r enw Charles, sy'n ei helpu i gasglu rhywogaethau newydd.

Yma ym Malaysia mae Alfred yn casglu popeth mae e wedi ei ddysgu yn ei ben, a sylweddoli bod anifeiliaid yn addasu er mwyn goroesi. Dyma yw theori esblygiad - darganfyddiad gwyddonol o bwys!



# Y DIWEDD

## Adborth

Gobeithio'ch bod chi wedi cael amser gwych yn y theatr a'ch bod wedi mwynhau perfformiad heddiw o'r Heliwr Pili Pala!

**Rhywbeth i'w rannu?**

Bydden ni'n falch iawn o glywed eich barn am unrhyw un o'n sioeau neu adnoddau.
Oes oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei rannu â ni ynglŷn â'r Stori Weledol, eich trip i'r theatr heddiw neu os hoffech fwy o wybodaeth amdanom, croeso i chi gysylltu.
Gallwch ddod o hyd i ni ar....

**Ebost:**
drama@theatr-nanog.co.uk

**Teleffon:**
01639 641771

**Cyfryngau Cymdeithasol**

**Facebook**
Search: Theatr na nÓg

**Twitter:**
@theatrnanog

**Instagram:**
@theatrnanog

Diolch!
Gobeithio welwn ni chi eto cyn bo hir!

theatr na nÓg